CCSDL16

Cydweithio â ffurfiau celfyddydol eraill

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu'ch ymwybyddiaeth o ffurfiau celfyddydol eraill a sut maen nhw'n gweithio gyda'ch dewis arddull ddawns.

Er enghraifft, gall cerddoriaeth fyw a dehongli sain drwy symudiad fod yn bwysig mewn bale, dawns o Dde Asia neu ddawns Pobl Affrica. Gall fod yn bwysig i artistiaid dawns creadigol ddefnyddio gwahanol ffurfiau celfyddydol fel testun, celf weledol, neu dechnoleg ddigidol i alluogi cyfranogwyr i ymgysylltu neu i gefnogi archwiliad creadigol o wisgoedd, sain a goleuo.

Bydd manylder a phwysigrwydd y safon hon i'r arweinydd dawns unigol yn dibynnu ar yr arddull ddawns a ddefnyddir ac a fydd yr arweinydd dawns yn paratoi grwpiau ar gyfer perfformiad cyhoeddus.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi ffyrdd o ddatblygu'ch ymwybyddiaeth o ffurfiau celfyddydol eraill a'u perthynas â'ch dawns chi
2. adnabod a darparu dulliau o wella'ch darpariaeth ddawns gan ddefnyddio ffurfiau celfyddydol eraill lle bydd adnoddau'n caniatáu hynny
3. nodi pryd y gallai fod angen i chi gydweithio ag artistiaid eraill a bod yn glir ynghylch eich rolau cyfunol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. pwysigrwydd gwybodaeth am ffurfiau celfyddydol eraill a sut gellir eu defnyddio, a'u cyfraniad i brosesau creu dawns
2. hyd a lled eich gwybodaeth a'ch sgiliau eich hun mewn ffurfiau celfyddydol eraill
3. gwerth cerddoriaeth a’r defnydd ohoni yn eich sesiynau a'ch perfformiadau dawns gan barchu'r defnydd ohoni, ei chyfansoddiad ac ansawdd yr atgynhyrchu
4. y caniatâd neu'r trwyddedau sydd eu hangen er mwyn cael defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw, gwaith ysgrifenedig neu gelf weledol i gefnogi'ch rhaglen ddawns, gan roi sylw penodol i berfformiadau cyhoeddus

CCSDL16

Cydweithio â ffurfiau celfyddydol eraill

CCSDL16

Cydweithio â ffurfiau celfyddydol eraill

Datblygwyd gan	Creative &Cultural Skills
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2011
Indicative Review Date	Ionawr 2018
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
RCU gwreiddiol	CCSDL16
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau Perfformio; Galwedigaethau Artistig a Llenyddol;
Cyfres/Set	Arweinyddiaeth Ddawns
Geiriau Allweddol	Arweinyddiaeth Ddawns, cydweithio, dawns cymunedol